Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol: Galwad am Ymarferwyr Creadigol

Ysgol Llanfyllin, Llanfyllin, Powys, SY22 5BJ

Cyllid: £5,000 | **Cyfnod y Prosiect:** Chwefror – Ebrill 2021 | **Dyddiad Cau Ceisiadau:** 5ed Ionawr 2021

Rydyn ni'n gwahodd ceisiadau gan ddau Ymarferydd Creadigol sy'n gallu siarad Cymraeg (croesewir unigolion a phartneriaethau), un â sgiliau mewn ymarfer celfyddydol gweledol digidol a'r llall mewn ymarfer celfyddydol therapiwtig i weithio â Blwyddyn 8 (oddeutu 11 myfyriwr) a Blwyddyn 9 (oddeutu 8 myfyriwr). Myfyrwyr yn y ffrwd Gymraeg ydyn nhw, fodd bynnag maen nhw'n dod o deuluoedd Saesneg eu hiaith felly dydyn nhw ddim wedi cael fawr o gyfle i siarad Cymraeg yn ystod y cyfnod clo. Nod y prosiect felly ydy gwella gallu celfyddydol digidol a sgiliau Iaith Gymraeg plant nad ydyn nhw o gefndiroedd Cymraeg tra ar yr un pryd yn adeiladu hyder iechyd a llesiant ymysg y ddau grŵp.

AM BWY RYDYN NI'N CHWILIO

Rydyn ni'n croesawu ceisiadau oddi wrth Ymarferwyr Creadigol (gan gynnwys unigolion neu bartneriaethau), un â sgiliau ymarfer celfyddydol gweledol a'r llall mewn ymarfer celfyddydol Therapiwtig sy'n gallu dangos ymrwymiad i ddatblygu rhagoriaeth mewn ymarfer celfyddydol. Bydd disgwyl i'r Ymarferydd/wyr Creadigol a benodir:

- Hwyluso gweithgareddau dysgu creadigol mewn ysgol yn effeithiol :
- Bod yn rhan weithredol yng nghyfnodau cynllunio a datblygu'r prosiect;
- Datblygu perthynas weithio ag athrawon a staff eraill yr ysgol a nodweddir am fod yn agored ac yn ennyn ymddiriedaeth;
- Gweithio gydag athrawon a disgyblion i ddatblygu cymuned ddysgu greadigol yn yr ysgol yn seiliedig ar ymarfer cydweithredol a myfyriol a gyda golwg ar sicrhau bod y newid yn gynaliadwy;
- Rhannu ei/u siwrneiau creadigol personol â dysgwyr a dangos bod llwybrau sy'n arwain at yrfaoedd yn y sector creadigol;
- Gallu uniaethu â phobl ifanc mewn ffyrdd sy'n wahanol i berthynas athro/dysgwr. Mae'r gwahaniaeth yn anodd i'w ddiffinio, ond fel arfer mae'n golygu perthynas ychydig llai ffurfiol, mwy agored a gydag elfen gryfach o drafod ynglŷn â'r gwaith na fase'n digwydd fel arfer mewn perthynas rhwng athrawon a disgyblion.
- Gweithio ochr yn ochr ag athrawon a staff eraill o'r ysgol yn y dosbarth, mewn ffyrdd sy'n caniatáu i sgiliau'r naill a'r llall gyfannu ei gilydd. Mae cryfder partneriaeth gydweithredol yn gorwedd yn y ffaith bod y partneriaid yn deall set sgiliau arbennig a chyflenwol ei gilydd. Dylai Ymarferwyr Creadigol fod ag agwedd partner allanol, tra bo'r athro'n defnyddio'i arbenigedd a'i wybodaeth am y disgyblion a'u galluoedd i'r eithaf;
- Cydweithio ag athrawon a disgyblion i ddatblygu prosiect dichonol i gyflawni deilliannau cytunedig y prosiect o fewn y gyllideb a'r amserlen sydd ar gael.

FFIOEDD, AMSERLEN A CHYLLIDEB

Mae cyllideb gyffredinol o £5,000 ar gyfer y prosiect i gynnwys yr holl ffioedd, treuliau rhesymol a deunyddiau. Mae'r cytundeb am oddeutu 16 Diwrnod o waith ar raddfa o £250/dydd, gan gynnwys TAW, i'w rannu rhwng dau neu fwy o ymarferwyr (11 diwrnod ar gyfer yr ymarferydd celf digidol a 5 diwrnod ar gyfer yr ymarferydd therapiwtig). Mae gweddill y gyllideb ar gyfer treuliau rhesymol, gan gynnwys costau

teithio yr ymarferwyr creadigol a deunyddiau ar gyfer y prosiect, a fydd yn cael ei gytuno gyda'r ysgol ar ôl penodi.

Bydd y prosiect yn digwydd rhwng **Chwefror – Ebrill 2021**. Ar hyn o bryd ein bwriad ydy i'r ymarferwyr gyflwyno'r sesiynau'n fyw yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae'n dibynnu ar y cyfyngiadau Covid-19 sydd mewn grym ar adeg y cyflwyno. Hefyd, nodwch oherwydd y cyfyngiadau presennol, bod y ddau grŵp blwyddyn yn ffurfio dau swigen ar wahân a bod rhaid eu cadw ar wahân. Er enghraifft mae'n bosibl cymryd un dosbarth am y sesiwn bore a'r llall yn y prynhawn (i'w drafod ar ôl penodi). Bydd disgwyl i'r ymgeisydd/wyr llwyddiannus gyfrannu i'r cynllunio amlinellol cychwynnol ar gyfer y prosiect cyn **Chwefror 2021**.

Bydd yn ofynnol i'r ymarferydd/wyr a ddewiswyd:

- Ymgymryd â gwiriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a darparu tystiolaeth o sicrwydd Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus.
- Gallu mynychu cwrs dau ddiwrnod o hyfforddiant gorfodol Ysgolion Creadigol Arweiniol (os nad ydyn nhw wedi mynychu hyfforddiant Amddiffyn Plant ar gyfer prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol blaenorol.) Bydd yr hyfforddiant yn cael ei gynnal ar y **26ain a 27ain Ionawr 2021**.

SUT I WNEUD CAIS

Cyflwynwch y wybodaeth ganlynol i commissions@addocreative erbyn hanner nos ar y 5ed Ionawr 2021:

- Hyd at 10 delwedd digidol yn Powerpoint neu fformat PDF sengl ac os y dymunir, sioe gyflwyno 10 munud (ar y mwyaf). (Sylwer wrth anfon ffeiliau mawr (dros 4MB), a fyddech cystal â darparu Hyper ddolenni neu eu hanfon trwy DropBox / WeTransfer);
- CV cyfredol;
- Llythyr cais cryno sy'n amlinellu'n fras pam bod gennych chi ddiddordeb yn y cyfle hwn a sut y byddai eich profiad a'ch priodoleddau chi yn eich gwneud yn ymgeisydd addas ar gyfer y prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol hwn;
- Dau ganolwr sy'n gallu tystio i'ch addasrwydd i ymgymryd â'r comisiwn.

Bydd yr Ymarferydd/wyr Creadigol yn cael eu dewis ar ansawdd ei/u gwaith yn y gorffennol a'i berthnasedd i'r briff. Sylwer nad oes angen cynigion yn ystod y cyfnod hwn oherwydd mae disgwyl y bydd yr ymgeisydd a benodir yn datblygu'r prosiect mewn cydweithrediad â'r ysgol, athrawon a'r disgyblion.

PROSES DETHOL

Bydd hyd at 4 ymgeisydd yn cael eu rhoi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad ar sail y ceisiadau a dderbynnir. Bydd y cyfweliadau'n cael eu cynnal ar fore'r **12fed Ionawr 2021. Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod ar gael ar gyfer cyfweliad ar y dyddiad hwn.** Danfonir y gwahoddiadau i ddod i gyfweliad erbyn y 8fed Ionawr 2021.

GWYBODAETH BELLACH

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r comisiwn hwn, e-bostiwch Tracy Simpson, Asiant Creadigol Ysgolion Creadigol Arweiniol yn commissions@addocreative.com

Mwy am Ysgol Llanfyllin

Ysgol gydol oes, wledig, ddwyieithog yng Nghanolbarth Cymru ydy Llanfyllin, gyda dalgylch eang o dros 200 milltir sgwâr. Mae gan yr ysgol chweched dosbarth academaidd, gyda mwyafrif y disgyblion yn astudio pedair lefel UG, tair lefel Uwch a Bagloriaeth Cymru. Arwyddair yr ysgol ydy 'Teulu'.

Mwy am y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol

Mae'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn darparu cyfleoedd i ysgolion archwilio dulliau newydd a chreadigol o ddysgu ac addysgu ar draws y cwricwlwm, gan eu cefnogi i fynd i'r afael â materion, blaenoriaethau datblygu pwysig ac anghenion y dysgwyr. Ei nod ydy datblygu creadigrwydd, dyheadau a chyflawniadau pobl ifanc yng Nghymru, gan agor mwy o gyfleoedd ar gyfer eu dyfodol. Mae'n cefnogi arloesedd a datblygiad partneriaethau tymor hir rhwng ysgolion a gweithwyr proffesiynol creadigol. Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru sy'n ariannu'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Am fwy o wybodaeth ewch i http://www.arts.wales/what-we-do/creative-learning

Mwy am Addo

Sefydliad celfyddydol nid-er-elw ydy Addo sy'n arbenigo mewn curadu celf yn nhir y cyhoedd. O swyddfeydd ym Mhontypridd a Wrecsam, mae Addo'n gweithio gydag ac ar ran artistiaid, ymarferwyr creadigol, grwpiau cymunedol, sefydliadau gwirfoddol a phartneriaid o'r sector preifat a chyhoeddus, i gynhyrchu prosiectau ledled Cymru, yn ogystal â chenedlaethol a rhyngwladol. Ystyr 'Addo' ydy ' rhoi, dod, ysbrydoli, achosi, ychwanegu, ymuno' yn Lladin ac wrth gwrs yr ystyr yn Gymraeg ydy rhoi addewid ac mae'n adlewyrchu agwedd cydweithredol y cwmni tuag at gyflenwi prosiectau celf cyfoes sy'n cyfoethogi ecoleg cymdeithasol a diwylliannol ehangach lleoedd. Am fwy o wybodaeth ewch i: http://www.addocreative.com

addo

YSGOL LLANFYLLIN

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

Supported by The National Lottery® through the Arts Council of Wales
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru

Lead Creative Schools Scheme: Call for Creative Practitioners

Ysgol Llanfyllin, Llanfyllin, Powys, SY22 5BJ

Budget: £5,000 | **Project Duration:** February - April 2021| **Application Deadline:** 5th January 2021

We're inviting applications from two Welsh-speaking Creative Practitioners (individuals and partnerships are welcome), one with skills in digital visual art practice and the other and with a therapeutic arts practice. Working with Year 8 (approximately 11 students) and Year 9 (approximately 8 students). Students attend the Welsh language stream, however they come from English-speaking families so have had limited access to spoken Welsh during the lockdown period. The aim of the project is therefore to improve digital arts competency and Welsh language skills for children who are not from a Welsh-speaking background while also building health and well-being confidence amongst both groups.

WHO WE ARE LOOKING FOR

We welcome applications from Creative Practitioner(s) (including individuals or partnerships), one with skills in digital visual art practice and the other and with a therapeutic arts practice who can demonstrate commitment to developing excellence in creative practice. The appointed Creative Practitioner(s) will be expected to:

- Effectively facilitate creative learning activities in school;
- Be actively involved in the project planning and development stages of the project;
- Develop working relationships with teachers and other school staff that are characterised by trust and openness;
- Work with teachers and pupils to develop a creative learning community in the school based on collaborative and reflective practice with a view to embedding sustainable change;
- Share their personal creative journeys with learners and demonstrate pathways into careers in the creative sector;
- Be able to relate to young people in ways that are different from the teacher/learner relationship. This difference is hard to define, but is usually characterised by a greater degree of informality, openness and negotiated practice than might ordinarily be observed in relationships between teachers and pupils.
- Work alongside teachers and other school staff in the classroom, in ways that allow both skill sets to complement each other. The strength of the collaborative partnership lies in partners' understanding of their distinctive and complementary skill sets. Creative Practitioners should maintain the mind-set of an external partner, while the teacher makes full use of their expertise and knowledge of pupils' needs and abilities;
- Work with teachers and pupils to develop a feasible project to achieve the agreed project outcomes within the budget and timescale available.

FEES, SCHEDULE & BUDGET

The project has an overall budget of £5,000 to cover all fees, reasonable expenses and materials. The contract is for approx. 16 Days work at a rate of £250/day, including VAT, to be shared between two or more practitioners (11 days for the digital art practitioner and 5 days for the therapeutic arts practitioner). The remaining budget is for reasonable expenses, including creative practitioner travel and materials towards the project, which will be agreed with the school on appointment.

The project will take place between **February - April 2021**. Currently we intend that the practitioners will deliver live sessions at the school. However, this is subject to Covid-19 restrictions in place at the time of delivery. Additionally, please note due to current restrictions, that the year groups form two separate bubbles and must be kept separate. For example one class may take the morning session and the other the afternoon (to be negotiated on appointment). The successful candidate(s) would be expected to feed into the initial outline planning for the project prior to **February 2021**.

The selected practitioner(s) will be required to:

- Undergo a DBS check and provide proof of Public Liability Insurance cover.
- Be able to attend a mandatory two-day LCS training course (unless they have already attended CP training for a previous Lead Creative Schools project.) Training will take place on **26th & 27th January 2021**.

HOW TO APPLY

Please submit the following information to commissions@addocreative.com by midnight on 5th January 2021:

- Up to 10 digital images in Powerpoint or single PDF format and if desired, a 10-min (max) show-reel (N.B. When sending large files (over 4MB), please provide hyperlinks to online files or send via DropBox / WeTransfer);
- An up-to-date CV;
- A brief letter of application that broadly outlines why you are interested in this opportunity and how your experience and qualities would make you a suitable candidate for this Lead Creative Schools project;
- Two referees that can testify to your suitability to undertake the commission.

Creative Practitioner(s) will be selected on the quality and relevance of their past work to the brief. Please note that we do not require proposals at this stage because it is expected that the appointed candidate will develop the project in collaboration with the school, teachers and pupils.

SELECTION PROCESS

Up to 4 candidates will be shortlisted for interview from the applications received. Interviews will take place on the morning of **12th January 2021**. **Candidates must be available for interview on this date.** Invitations to interview will be sent out by 8th January 2021.

FURTHER INFORMATION

If you have any queries regarding this commission, please email Tracy Simpson, LCS Creative Agent at commissions@addocreative.com

More about Ysgol Llanfyllin

Ysgol Llanfyllin is a rural, all through, bilingual school in Mid Wales, with a wide catchment area of over 200 square miles. The school has an academic sixth form, with the vast majority of pupils studying four AS levels, three A2 levels and the Welsh Baccalaureate. The school's moto is 'Teulu' - meaning Family.

More about the Lead Creative Schools Scheme

The Lead Creative Schools Scheme provides opportunities for schools to explore new and exciting creative approaches to teaching and learning across the curriculum, supporting them to address issues, important development priorities and the needs of learners. It aims to develop the creativity, aspirations and achievements of young people in Wales, opening up more opportunities for their future. It supports innovation and the development of long-term partnerships between schools and creative professionals. The Lead Creative Schools Scheme is funded by the Welsh Government and the Arts Council of Wales. For more information visit http://www.arts.wales/what-we-do/creative-learning

More about Addo

Addo is a not-for-profit arts organisation specialising in the curation of art in the public realm. From offices in Pontypridd and Wrexham Addo works with and on behalf of artists, creative practitioners, community groups, voluntary organisations, and private and public sector partners to produce projects across Wales, as well as nationally and internationally. 'Addo' means 'to give, bring, place, inspire, cause, add, join' in Latin and 'to promise' in Welsh and reflects the company's collaborative approach to delivering high quality contemporary art projects that enhance the wider social and cultural ecologies of places. For more information visit: http://www.addocreative.com

addo

YSGOL LLANFYLLIN

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

Supported by The National Lottery® through the Arts Council of Wales
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru